



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



menter a busnes

Cyfleoedd i arallgyfeirio yn y farchnad a mwy o wydnwch fferm gyda chynhyrchiant llysiau anarferol ac egsotig a blodau bwytdwy yng Nghymru.

Mae defnyddwyr y DU yn gynyddol yn chwilio am ystod eang o flasau newydd ac amrywiol wrth i ddiddordeb mewn blasau a seigiau rhyngwladol ddatblygu. Mae hyn yn rhoi cyfle i dyfwyr dyfu cynydau newydd, gwerth uchel sy'n amrywio'r hyn y maent yn ei gynnig i ddefnyddwyr. Er bod y cynydau arbenigol hyn wedi'u tyfu'n llwyddiannus mewn gwahanol wledydd, nid oes cyngor agronomig ar gael sy'n benodol i hinsawdd Cymru.

Nod y prosiect EIP Wales hwn, a oedd yn rhedeg rhwng 2020 a 2022, oedd:

1. Magu profiad ymarferol o blanhigion bwytdwy newydd, gan gynnwys blodau bwytdwy, wedi'i ategu gan dystiolaeth dechnegol ar gyfer arferion gorau amaethu yng Nghymru i wneud y mwyaf o botensial cynhyrchu.
2. Datblygu sylfaen dystiolaeth i gefnogi tyfwyr sy'n ceisio gweithredu mathau newydd o gynydau ar eu daliadau, gan gynnwys pecynnau cymorth ar gyfer cynhyrchion newydd gyda chynghor agronomeg a marchnata.

Llysiau

Okahijiki (Gwymon ar y tir) ac Agretti, mathau o blanhigion sy'n debyg i Lyrlys y gellir eu tyfu yn y pridd nid dŵr halen llanw fel Lyrlys. Dail hir, tenau sy'n cael eu cynaeafu rhwng yr haf a'r hydref. Yn blanhigyn unflwydd, gellir ei gynaeafu rhwng Ebrill a Hydref, neu'n hwyrach os yw'n cael ei warchod a gellir ei gynaeafu'n rheolaidd nes ei fod yn blodeuo. Gellid stemio Okahijiki/Agretti â garllig, menyng a halen, ac ystyriwyd eu bod yn ddigon crensiog a chreisionllyd i fynd i mewn i saladau a garneisiau o bosibl fel planhigion micro-wyrdd, y gwyddys eu bod hefyd yn cael eu defnyddio mewn swshi. Cytunodd y cogyddion fod y rhain ar gael mewn sianeli arbenigol. Nid oedd cwsmeriaid yn ystod yr arolwg erioed wedi clywed am Okahijiki/Agretti.



Perilla

Perllysieuyn â blas coriander mint y gellir ei ddefnyddio i ychwanegu at saladau, fel garnais neu fel ychwanegiad at Sushi, cyris neu dempwra. Gellir cynaeafu planhigion 10-12 wythnos ar ôl eu plannu, ond mae angen cynhesrwydd felly bydd angen eu hamddiffyn yn ystod misoedd y gaeaf. Disgrifiwyd Perilla fel un o hanfodion swshi ac fel llysieuyn defnyddiol mewn coginio Asiaidd sydd â photensial fel planhigyn micro-wyrdd ac fel newid neu ychwanegiad at fasil, yn enwedig y mathau Thai.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Roedd cogyddion yn ymwybodol o sianeli arbenigol lle mae perilla ar gael.

Llyisiau'r Llymarch

Yn blaguro mewn tymereddau oerach os oes hadau ffres ar gael. Mae hwn yn lluosflwydd gwydn gyda dail bytholwyrdd y gellir ei gynaeafu trwy gydol y flwyddyn, ond mae angen ei drin yn ofalus i atal blodeuo yn yr haf. Gellir defnyddio'i ddail yn ffres fel salad neu garnais, neu gynhwysyn mewn coginio dwyreiniol.

Ystyriwyd llyisiau'r llymarch yn gyfeiliant perffaith ar gyfer cregyn bylchog a seigiau bwyd môr, yn enwedig yn lle cregynbysgod mewn ryseitiau llysiuol, er ei fod yn colli llawer o'r blas wrth ei goginio.



Callaloo

Yn debyg i sbigoglys, mae callaloo yn gyffredin mewn prydau math Caribïaidd a gellir ei ddefnyddio mewn cyris a stiwiâu neu fel salad neu garnais dail.

Ystyriwyd Callaloo yn un o hanfodion bwyd Caribïaidd, ac mae'n dod yn llawer mwy poblogaidd gyda choginio modern o'r math "jerk" ac eisoes yn llysiuyn traddodiadol mewn bwydydd Affricanaidd a Gorllewin India. Roedd cogyddion yn ymwybodol y gallech ddod o hyd i callaloo ar werth gan arbenigwyr.



Rhewlys

Defnyddir yn debyg i Lyrlys gyda seigiau pysgod, neu fel garnais salad. Yn lluosflwydd sy'n blodeuo o fis Gorffennaf i fis Medi, gellir cynaeafu ei ddeunydd dail trwy gydol y flwyddyn ar ôl ei sefydlu. Er y gellir bwyta'r blodau, yn anaml y mae'n blodeuo yn hinsawdd y DU. Gellid defnyddio rhewlys fel cynhwysyn mewn bag salad newydd gyda dail yn darparu gwead oeri diddorol yn wahanol i ddail eraill fel y teimla'r geg. Ystyriwyd hefyd ei fod yn adfywiol ac yn ddefnyddiol ar gyfer glanhau'r dafnod yn ogystal â defnyddio'r awgrymiadau bach wrth blatio bwyd.



Fiola

Wedi'u tyfu'n hawdd o hadau, bydd y rhain yn blodeuo o fewn 12 - 16 wythnos, ac mae'n well eu plannu o'r haf tan ddiwedd yr hydref. Fel arfer yn cael eu prynu fel planhigion gwely pecyn sydd eisoes yn eu blodau. Gellir ei hau hefyd dan warchodaeth ar gyfer twf cynnar, neu eu tyfu'n uniongyrchol yn y pridd yn yr haf. Gellir gwerthu blodau fel garnais, blas neu brosiect wedi'i brosesu (e.e. fioled â siwgr). Mae gan fiola flas melys a gellir ei ddefnyddio ar brydau sawrus a melys. Dywedodd un cogydd ei fod yn ychwanegiad da at losin sy'n seiliedig ar gwstard, gan ei fod yn gwella ei gyfaredd. Dangosodd yr arolwg fod y rhain yn cael eu cydnabod yn gyffredin gan gwsmeriaid.



Begonia semperflorens

Wedi'u plannu fel plygiau wedi'u prynu i mewn neu wasarn pecyn parod, bydd blodeuo sefydledig yn digwydd o ddechrau'r haf hyd at gyfnodau rhew yn yr hydref. Gellir ei ddefnyddio fel cyflasyn salad, neu fel llysieuyn mewn symiau bach. Disgrifiwyd y blodyn Begonia hefyd fel glanhawr afalau sur adfywiol - roedd y rhain hefyd yn addurniadol iawn ar y plât. Nid oedd cwsmeriaid a arolygwyd erioed wedi clywed am flodeuyn afal Begonia.



Blodau Corbwmpenni

Gellir stwffio blodau corbwmpenni, eu gorchuddio â chytew tempwra a'u ffrio'n ddwfn i'w gweini gydag amrywiaeth o seigiau. Maent yn dod o fathau confensiynol o gorbwmpenni a byddant yn cynhyrchu corbwmpenni ar flodau benywaidd os na chânt eu cynaeafu ar gyfer eu blodau. Mae blodau gwrywaidd ar y dde hefyd yn cael eu gwerthu i'w bwyta. Paratowyd blodau corbwmpenni mewn cytew Tempwra gyda'r samplau ymgeisydd, a phan roddwyd hwy i banel blas bach, cafodd dderbyniad da. Yn ystod yr arolwg, blodyn corbwmpen oedd un o'r rhai a adnabyddir amlaf.



Berwr lluosflwydd

Yn wahanol i'r fersiwn unflwydd sy'n mynd i hadu'n gyflym, gellir torri'r math hwn yn ôl a'i chynaeafu'n ddilyniannol ar ôl iddo adennill ac aildyfu dail newydd. Gellir ei docio am 2 dymor os caiff ei reoli. Hefyd yn ddefnyddiol ar ddiwedd yr hydref wrth amddiffyn a bydd yn gaeafu ar gyfer cnwd cynnar yn y gwanwyn. Disgrifiwyd Berwr Lluosflwydd fel 'blodyn â blas hafaidd, melys a phoeth da a byddwn yn ei ddefnyddio yn lle'r cyflenwad presennol oedd ganddynt oherwydd ei flas poethach ac mae'n gynhwysyn salad da'.



Agwedd ychwanegol ar y prosiect hwn oedd canolbwyntio ar ddatblygu'r farchnad. Mae'n bosibl y bydd newydd-deb rhai o'r cnydau hyn yn golygu y bydd angen i dyfwyr gefnogi eu cwsmeriaid i sicrhau'r defnydd gorau o'r cynhyrchion hyn, yn enwedig yn y sector gwasanaeth bwyd lle gallai ciniawyr fod yn anghyfarwydd â chnydau newydd ac anarferol. Darparwyd samplau i ddau gogydd gyda phanel profi blas cyfyngedig, ynghyd ag arolwg ar-lein i archwilio'r hyn y mae cwsmeriaid tebygol yn ei wybod am y cnydau hyn a pha ddeunyddiau y gallai fod eu hangen arnynt i'w helpu i ddewis y cynhyrchion hyn.

Cyngor Agronomig

Roedd yn hawdd blaguro a sefydlu'r rhan fwyaf o'r cnydau hyn, er efallai y byddai angen i dyfwyr ystyried eu ffynonellau hadau yn ofalus er mwyn sicrhau hyfywedd ac addasrwydd ar gyfer cnydau bwydadwy – yn enwedig ar gyfer cnydau blodau a allai fod wedi'u trin â chemegau sy'n addas ar gyfer planhigion addurnol yn unig. Byddai gofod blaguro dynodedig - wedi'i gynhesu i 20°C - yn well. Ar gyfer amaethu, y cnydau hyn a berfformiodd orau o dan amddiffyniad - twneli polythen gwydr neu blastig - lle gellir osgoi dod i gysylltiad â'r elfennau a rheoli plâu yn fiolegol i gyflawni'r lefelau uchaf o ansawdd a ddymunir gan ddefnyddwyr. Efallai nad yw cynhyrchion confensiynol ar gyfer rheoli plâu a chlefydau ar gael i raddau helaeth, ond mae cylch tyfu byr y cnydau hyn yn golygu y gellir lleihau problemau yn ogystal â hyrwyddo parhad cyflenwad trwy amserlennu gofalus. Yn yr un modd, mae'n annhebygol y bydd cyngor penodol ar reoli maeth ar gyfer y cnydau hyn ar gael, ond gellid dilyn argymhellion cyffredinol RB209 ar gyfer saladau deiliog (llyisiau egsotig) a phlanhigion addurnol (blodau egsotig). Rhoddir cnwd ar gyfer planhigion dan do ac awyr agored isod.

Addysg Cwsmeriaid

Byddai'n fuddiol darparu rhywfaint o addysg i gwsmeriaid, yn enwedig os ydynt yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd, ar sut i ddefnyddio'r cynhyrchion hyn i ysgogi diddordeb. Gallai hyn gynnwys cardiau ryseitiau, negeseuon cyfryngau cymdeithasol neu hyrwyddiad trwy sianeli marchnata arferol i ysgogi diddordeb. Ar yr un raddfa, mae tyfwyr ffrwythau meddal sy'n rhedeg mentrau "dewis eich hun" wedi darparu cardiau rysâit jam i annog mwy o werthiant ffrwythau yn ystod cyfnodau o gasglu trwm. Gall presenoldeb cyfryngau cymdeithasol gynrychioli sianel farchnata cost isel, mewnbwn isel, ond hynod effeithiol, felly byddai'n hawdd ymestyn hyn i gynnwys ryseitiau a syniadau bwyd newydd gan ddefnyddio cynnyrch egsotig.

Safbwyntiau Tyfwyr

Bydd argaeledd a pharhad cyflenwad yn hanfodol er mwyn annog y sector gwasanaeth bwyd i'w defnyddio. Bydd hon yn her ychwanegol i flodau bwydadwy y mae'n rhaid eu cynaeafu mewn ffenestr gyfyng iawn, ac felly rhaid bod yn ofalus gyda'r amserlenni plannu i sicrhau y gellir cymryd cynhaeaf cyson i gyd-fynd â disgwyliadau ac archebion cwsmeriaid. Gall y galw am y cynhyrchion fod yn isel ond gydag arloesedd a marchnata addas gellid eu defnyddio i arallgyfeirio ystod cynnyrch sydd o werth premiwm.

Dylai tyfwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â phlaladdwyr a gwrtaith wrth dyfu cnydau bwydadwy a gwerthu i'r cyhoedd. Dylai tyfwyr gynnal asesiad risg ar alergenau y gellir dod ar eu traws wrth gynhyrchu a phrosesu, a chynghori eu cwsmeriaid y dylid golchi pob cynnyrch yn ofalus cyn ei ddefnyddio.

Er bod yn rhaid tyfu'r cnydau hyn i'r safonau ansawdd uchaf, gallant gyrraedd pris marchnad uchel yn enwedig pan gânt eu gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr. Ystodau prisiau tebygol ar gyfer y cnydau hyn:

Cynnyrch	Maint	Pris Dangosol
Agretti	Sypiau bach (50g)	£2 – 3 y 50g
Perilla	Sypiau bach (10-20 deilen)	15 – 30c y ddeilen neu c. £8 y 10g
Llysiau'r Llymarch	Sypiau bach (30-50g)	£2 – £5 y 10g
Callaloo	Sypiau bach (50g)	£2 – 3 y 50g
Dail Rhewlys	Sypiau bach (10-30 deilen)	£3 – 5 y swp
Blodyn Fiola	Basgedi bach o 25-30 o flodau	£6 – 8 y fasedd, £1/g
Blodau Rhewlys	Basgedi bach o 15 - 20 o flodau	£4 – 6 y fasedd
Blodyn Begonia	Basgedi bach o 15 - 20 o flodau	£6 – 8 y fasedd
Blodyn Corbwmpen	Basgedi bach o 5-15 o flodau	£2 – 3 y blodyn

Casgliadau

Mae'r prosiect hwn wedi dangos y gellir addasu'r cnydau egsoftig newydd hyn i'w cynhyrchu yng Nghymru, gan alluogi tyfwyr i ddarparu cnydau egsoftig newydd i'w cwsmeriaid, tra'n arallgyfeirio'r hyn a gynigir ganddynt. Gall natur arbenigol y cnydau hyn fod yn her – cymorth agronomig cyfyngedig a galw newydd i'w ddatblygu gan gwsmeriaid – a gellir ei wrthbwyso gan eu gwerth a'u natur unigryw, ac mae'r rhain yn cyd-fynd yn dda â chynnig cymysg ac amrywiol.